# Llawlyfr Mentor CaBan

# Cynnwys

Gweledigaeth Mentora CaBan ........ 2
Sut mae Athrawon Cyswllt (AC) yn Dysgu ........ 2
Disgwyliadau Mentora CaBan ........ 3
Swyddogaeth y Mentor ........ 4
Addysgeg AGA CaBan ........ 6
Sgiliau Mentora Craidd a Dulliau Dysgu Proffesiynol ........ 6
Dysgu Proffesiynol: Arsylwi Gwersi ........ 7
Dysgu Proffesiynol: Addysgu mewn Tîm ........ 8
Dysgu Proffesiynol: Sgwrs Ddysgu ........ 9
Dysgu Proffesiynol: Arsylwi Cyfeiriedig ........ 10
Dull Dysgu Proffesiynol: Teithiau Dysgu ........ 11
Dull Dysgu Proffesiynol: Grŵp Ymchwil Athrawon ........ 12
Adran B: Dogfennaeth Mentora ........ 13
Atodiad A: Dysgu Proffesiynol - adnoddau manylach ........ 14
Atodiad B: Proses Arsylwi Gwersi ........ 15

## Gweledigaeth Mentora CaBan

Mae mentora arbenigol yn ganolog i lwyddiant gweledigaeth CaBan o ddatblygu athrawon yfory.

Mae gweledigaeth CaBan ar gyfer mentora yn seiliedig ar ddeialog ac mae'n canolbwyntio ar wella dysgu Athrawon Cyswllt i addysgu.  Mae mentora effeithiol yn broses ddwy ffordd sy'n datblygu dull adfyfyriol o ddysgu.

## Sut mae Athrawon Cyswllt (AC) yn Dysgu

| **Ymreolaeth Broffesiynol** | |
|---|---|
| Deialog | Cydweithio |
| Sgyrsiau dysgu<br>Hyfforddiant cymheiriaid<br>Dysgu cymheiriaid<br>Dull deialogaidd<br>Gwerthuso | Cydweithredu<br>Cyd-adeiladu<br>Cyd-gynllunio<br>Cyd-addysgu<br>Addysgu mewn tîm<br>Astudiaeth Gwers |
| **Adfyfyrio Beirniadol** | |
| Arsylwi | Ymchwiliad |
| Arsylwi gyda ffocws pendant<br>Ymateb i adborth<br>Asesu dysgu<br>Arsylwi beirniadol<br>Gwerthuso<br>Teithiau Dysgu | Addysgeg y pwnc<br>Ymchwil ar sail tystiolaeth<br>Arloesi<br>Datrys problemau<br>Ymchwiliad Ymarferydd |

## Disgwyliadau Mentora CaBan

Bydd y mentor dosbarth/pwnc yn:

- cyflwyno'r AC i staff a diwylliant yr ysgol;
- darparu amserlen hyblyg, y gellir ei newid wrth i ymreolaeth yr AC gynyddu;
- amrywio eu dulliau, yn dibynnu ar anghenion a datblygiad yr AC;
- cyd-lunio, cyd-gynllunio ac addysgu mewn tîm gyda'r AC fel y bo'n briodol, er mwyn hwyluso a modelu ymarfer da;
- cyfarfod yn wythnosol gyda'r AC mewn slot amser a neilltuwyd (gwers fel arfer), i drafod a chefnogi cynnydd;
- arsylwi ar yr AC yn addysgu a darparu adborth perthnasol;
- gosod targedau yn wythnosol gyda'r AC yn unol â'r Ffurflenni Asesu Addysgeg i gefnogi datblygiad;
- cysylltu â staff eraill sy'n cefnogi'r AC gan gynnwys tiwtoriaid dosbarth ac athrawon pwnc ar lefel uwchradd;
- trefnu rhaglen i'r AC arsylwi gwersi eraill fel sy'n berthnasol ac yn ofynnol gan raglen CaBan;
- cwblhau asesiadau ffurfiannol a chrynodol yr AC gan gynnwys ysgrifennu adroddiad profiad diwedd ysgol ar gynnydd yr AC gan ddefnyddio SPAA fel cefndir;
- monitro defnydd yr AC o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.
- cysylltu â'r SAU a'r Prif Fentor (PF) ynglŷn â chynnydd yr AC a rhoi gwybod am unrhyw bryderon fel y bo'n briodol.

Bydd y Prif Fentor yn:

- cyfarfod â'r AC yn yr ysgol pob wythnos i drafod cynnydd a materion cyffredinol;
- llunio rhaglen gynefino i'r ysgol fel y bo'n briodol ac yn unol â gofynion CaBan;
- trefnu i'r AC arsylwi gwersi fel y bo'n briodol;
- arsylwi ar y mentoriaid yn gweithio gyda'r AC a darparu adborth fel rhan o'r rhaglen sicrhau ansawdd;
- Darparu hyfforddiant i'w mentoriaid ysgol eu hunain ar y cyd â Mentoriaid Arweiniol y Rhwydwaith (MARh);
- darparu cefnogaeth fugeiliol ar gyfer yr AC yn yr ysgol;
- cysylltu â'r SAU a'r MARh ynglŷn â chynnydd yr AC yn yr ysgol.

Bydd Mentor Arweiniol y Rhwydwaith yn:

- cynnal dyddiau ysgol arweiniol, naill ai drwy gyflwyno ei hun neu weithio'n agos â chyflwynwyr y sesiynau perthnasol;
- cynnal dyddiau MDaPh fel sy'n briodol;
- Sicrhau ansawdd gwaith y Prif Fentoriaid;
- trefnu'r Rhaglen Ddatblygu Mentoriaid ar y cyd â'r TCB;
- cysylltu â PF, mentoriaid ac AC yn y rhwydwaith i gefnogi cynnydd yr AC;

- Sicrhau ansawdd y gwaith o asesu'r AC, gan gynnwys yr adroddiadau crynodol.

Bydd yr Athro Cyswllt yn:

- deall y broses o gael ei fentora a sut i gymryd rhan yn y broses yn effeithiol;
- bod yn barod i gael ei fentora gydag agwedd gadarnhaol tuag at gael ei fentora ac ymwybyddiaeth o'r agweddau ar fentora sy'n benodol i CaBan;
- paratoi at gyfarfodydd mentora trwy gwblhau dogfennau perthnasol ymlaen llaw;
- cwblhau cynlluniau gwersi ymlaen llaw, fel y gall y mentoriaid neu'r athrawon gynnig adborth;
- cwblhau'r holl ddogfennau ar-lein (Y Pasbort Dysgu Proffesiynol) a'u rhannu gyda'r mentor;
- cwblhau eu dyddlyfr proffesiynol yn rheolaidd a'i rannu gyda'r mentor;
- sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â hwy yn cael gweld y dyddlyfr fel y bo'n briodol i gwblhau adborth gwersi;
- ymateb yn broffesiynol a gweithredu ar yr adborth a gynigir a gweithio tuag at dargedau;
- adolygu eu hadroddiadau profiad ysgol gyda'r mentoriaid.

## Swyddogaeth y Mentor

Bydd mentoriaid yn gyfrifol am sefydlu perthynas **gefnogol** gydag Athrawon Cyswllt gan gynnwys:

- cynefino Athrawon Cyswllt â'r **diwylliant** addysgu;
- egluro swyddogaethau, cyfrifoldebau a pherthynas y mentor/athro cyswllt i ddileu unrhyw bosibilrwydd o gamddealltwriaeth;
- annog adfyfyrio **personol** a hunanwerthuso;
- goruchwylio trwy adborth adeiladol a gwrando.

Cefnogi ymarfer dosbarth effeithiol yr AC:

- cymryd swyddogaeth **addysgwr athrawon**, gan gynnwys datblygu gwybodaeth bynciol yr AC a datblygu addysgeg drwy **fodelu arfer dda** gydag agweddau gweladwy ar sut i fod yn athro;
- hwyluso cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol perthnasol, cynnwys eraill; **cydweithio** â chydweithwyr; cynllunio ar gyfer cyfraniad/profiad arbenigol;

Datblygu eu swyddogaeth fel **addysgwr athrawon**:

- Dealltwriaeth o'r cwricwlwm;
- Nodi prosesau dysgu;
- Gosod nodau tymor byr a thymor hir ar gyfer addysgu a dysgu;
- Dadansoddi a gwerthuso perfformiad yr AC;
- Monitro cynnydd dysgwyr;

- Cyd-lunio gwersi;
- Trafod strategaethau addysgu priodol.

Monitro ac asesu'r AC **(aseswr)**:

- Nodi meini prawf gyda'r AC ar gyfer ymarfer dosbarth effeithiol;
- Llunio proffil o'r AC;
- Cymhwyso safonau i waith yr AC.
- Darparu ehangder profiad i'r AC **(cydweithiwr ac eiriolwr)**:
- Cynnwys cydweithwyr eraill;
- Cydlynu cyfraniadau gan bobl eraill;
- Cynllunio a chefnogi cyfraniad gan arbenigwyr;
- Sefydlu cysylltiadau ag asiantaethau eraill.

Nodweddion perthynas y mentor; cyfrifoldebau'r mentor:

- Datblygu'r cyfnod cynefino a gwneud penderfyniadau am gysylltiadau gwaith cadarnhaol;
- Bod yn ymwybodol o'r gwrthdaro sydd ynghlwm wrth **asesu** a **chefnogi** ar yr un pryd, a rheoli'r gwrthdaro hwnnw;
- Rheoli'r berthynas sy'n newid - dylai'r AC ddod yn llai dibynnol a dylai'r berthynas ddod yn un fwy cydweithredol;
- Llunio a rheoli amserlen newidiol yr AC;
- Cyd-gynllunio, cyd-gyflwyno a chyd-adolygu gwersi neu rannau o wersi gyda'r AC;
- Arsylwi gwersi a gyflwynir gan yr AC a chynnig adborth adeiladol;
- Hwyluso arsylwadau manwl a gwaith dilynol i'r AC yn yr ysgol neu'r adran;
- Cynnal astudiaeth gwers gyda'r AC;
- Asesu'r AC yn erbyn y SPAA a chwblhau'r gwaith papur priodol.

## Addysgeg AGA CaBan

Mae Addysgeg AGA CaBan yn seiliedig ar integreiddio a holi theori ac ymarfer, lle mae AC yn datblygu mewn cymuned ymarfer sydd wedi ymrwymo i ddysgu ar sail ymholiad a dull deialogaidd. Mae addysgeg CaBan yn gyfuniad o ymwneud ag ymchwil, gweithredu, arsylwi strwythuredig, adfyfyrio a dadansoddi. Mae'n seiliedig ar y gred bod addysgu yn ymrwymiad moesol a deallusol, y mae hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ganolog iddo. Caiff ei ategu gan ymchwiliad proffesiynol i ddatblygu galluoedd AC i arloesi, i arbrofi â thechnegau newydd, ac i werthuso eu heffeithiolrwydd yn drylwyr. Caiff AC eu dysgu i adnabod problemau yn ymarferol ac i gydweithio er mwyn dod o hyd i atebion, a datblygu eu hunaniaeth broffesiynol. Mae CaBan yn ystyried credoau, agweddau a gwerthoedd cychwynnol a datblygiadol yr AC o ran addysgu a dysgu a natur unigol twf proffesiynol.

Bydd AC, mentoriaid a thiwtoriaid yn rhyngweithio trwy gymryd rhan mewn gwahanol ddulliau o adfyfyrio a dysgu proffesiynol.

## Sgiliau Mentora Craidd a Dulliau Dysgu Proffesiynol

### Rhesymeg

- Er mwyn hwyluso dysgu proffesiynol mwy effeithiol trwy ddarparu fframwaith cydlynol i'w ddilyn, sef cyfres o dasgau dysgu proffesiynol y bydd yr athro cyswllt (AC) a'r mentor (lle bo'n berthnasol) yn cwblhau ar y cyd
- Sicrhau bod dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â Safonau Proffesiynol Addysgu ac Arweinyddiaeth (SPAA), a darparu tystiolaeth y gellir ei uwchlwytho i Basbort Dysgu Proffesiynol (PDP) yr AC
- Er mwyn hyrwyddo diwylliant o ymholiad, lle mae ymchwil sy'n agos at ymarfer yn rhan greiddiol ac yn elfen allweddol o'r rhaglen
- Sicrhau adfyfyrio ac adolygiad proffesiynol parhaus o ymarfer, addysgeg a sut mae dysgwyr amrywiol yn dysgu
- Sicrhau cydberthynas effeithiol rhwng yr AC a'r mentor, wedi ei nodweddu gan ryngweithio parhaus, cydweithredu a chyd-adeiladu gwybodaeth, dealltwriaeth a dysgu proffesiynol

Isod ceir amlinelliad byr o'r sgiliau mentora craidd hyn a'r dulliau dysgu proffesiynol. Ceir arweiniad ychwanegol i'r mentor (gweler atodiad H) wrth gynllunio a pharatoi at arsylwi addysgu'r AC, cyn y wers, yn ystod y wers ac ar ôl y wers a arsylwyd.

Caiff y sgiliau mentora craidd a'r dulliau dysgu proffesiynol hyn eu llywio gan bapur 'sefyllfa addysgeg' CaBan, sydd ar gael ar wefan CaBan. Mae hyn i sicrhau bod gweithgareddau mentora yn seiliedig ar hyn ac yn cyd-fynd â hyn, gan weithio gyda'r AC fel oedolyn a dysgwr proffesiynol i ddarparu amgylchedd a phrofiad personol a phriodol.

**Yn ogystal, bydd mentoriaid ac AC yn cwblhau Astudiaeth Gwers a Phrosiect Ymchwil Gweithredu (Yr Ymholiad Proffesiynol) yn ystod y cyrsiau BA a TAR. Mae cyflwyniadau Sway o'r ddau ddull ymholi hyn i'w gweld ar wefan CaBan.**

## Dysgu Proffesiynol: Arsylwi Gwersi

Mae'r AC a'r mentor yn nodi gwers briodol i'r mentor ei harsylwi. Maent yn trafod y cynllun ac mae'r mentor yn arsylwi'r wers gan ddefnyddio dogfennaeth CaBan. Mae'r mentor yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig yn dilyn y wers.

Mae'r mentor a'r AC yn cyfarfod i gynllunio gwers y bydd y mentor yn ei harsylwi; maent yn trafod y cynllun sylfaenol. Mae'r AC yn anfon cynllun gwers wedi'i gwblhau at y mentor cyn y wers.

- Paratoi a Chynllunio

Mae'r AC yn addysgu'r wers ac mae'r mentor yn arsylwi, gan wneud nodiadau yn defnyddio Ffurflen Asesu Addysgeg CaBan a'r daflen canllaw arsylwi (gweler Atodiad).

- Addysgu ac Arsylwi

Mae'r Mentor a'r AC yn cyfarfod i drafod y wers ac i adolygu cynnydd yr AC yn erbyn yr SPAA. Mae'r mentor yn rhoi adborth llafar ac yn llenwi ffurflen ysgrifenedig.

- Trafod ac Adolygu

## Dysgu Proffesiynol: Addysgu mewn Tîm

Mae'r AC a'r mentor yn penderfynu ar wers y gallant addysgu gyda'i gilydd.  Mae'r mentor yn cynllunio mwyafrif y wers ac yn arwain yr AC yn eu cyfraniadau. Adolygir y wers gan yr AC a'r mentor.

| | |
|---|---|
| Mae'r mentor a'r AC yn penderfynu ar wers a fyddai'n addas ar gyfer addysgu fel tîm.  Mae'r AC yn gwylio'r mentor yn cyflwyno'r wers flaenorol. | • Paratoi |
| Mae'r mentor yn cynllunio'r wers, gan gynnwys rhannau i'r AC gymryd rhan ynddynt (e.e. cloi'r wers). | • Cynllunio |
| Mae'r AC yn cynllunio'r rhan berthnasol dan arweiniad y mentor. | • Cynllunio |
| Mae'r AC a'r mentor yn addysgu'r wers. Mae'n arfer da i recordio'r wers yn defnyddio meddalwedd y gellir ei storio a'i rannu rhwng y mentor a'r AC. | • Addysgu |
| Mae'r Mentor a'r AC yn adolygu'r wers ac yn edrych ar gynyddu cyfraniad yr AC yn y wers nesaf. | • Adolygu |

## Dysgu Proffesiynol: Sgwrs Ddysgu

Mae'r AC a'r mentor yn trafod cynnydd yn erbyn targedau ac amcanion naill ai ar ôl gwers a arsylwyd neu mewn perthynas â chynnydd ers y cyfarfod a'r adolygiad diwethaf

| | |
|---|---|
| Mae'r mentor yn sicrhau bod gan yr AC dargedau clir sy'n cael eu trafod, cyn y cyfarfod. Mae angen rhannu'r targedau gyda'r holl athrawon sy'n ymwneud â'r AC. | • Paratoi a Chynllunio |
| Efallai y bydd y mentor wedi arsylwi'r AC. Os nad yw, gellir defnyddio'r dyddlyfr. Dylai'r AC wneud nodiadau ar y cynnydd a wnaed i gyrraedd y targedau. | • Addysgu ac Arsylwi |
| Mae'r Mentor a'r AC yn cyfarfod i drafod y targedau gan ddefnyddio canllawiau ar gyfer holi a sgyrsiau dysgu | • Trafod ac Adolygu |
| Mae'r AC a'r mentor yn penderfynu ar dargedau ar gyfer cam nesaf y dysgu ac yn gosod y targedau hynny. | • Gosod Targedau Newydd |
| Mae'r Mentor a'r AC yn adolygu'r targedau newydd yn yr un modd. | • Adolygu |

## Dysgu Proffesiynol: Arsylwi Cyfeiriedig

Mae arsylwi ymarferwyr eraill yn ddull effeithiol o hwyluso datblygiad yr AC a bodloni eu targedau. Mae'r mentor yn trefnu'r arsylwi ac yn dad-briffio'r AC a'r athro dan sylw. Darperir atodlenni arsylwi amrywiol i'r AC i'w defnyddio gan y mentor. Ar ôl y wers, ceir trafodaeth rhwng yr AC a'r athro pan gaiff yr AC gyfle i holi'r athro am y dewisiadau a wnaed mewn perthynas â'r wers.

| | |
|---|---|
| Mae'r mentor yn ystyried agwedd sy'n darged cyson i'r AC. Mae'r mentor a'r AC yn cytuno y byddai arsylwi dan arweiniad yn ddefnyddiol. Mae'r mentor yn trefnu arsylwi gwers athro priodol. | • Paratoi a Chynllunio |
| Mae'r AC yn arsylwi'r wers gyda nodiadau gan y mentor - mae'r AC yn nodi cwestiynau i'w gofyn i'r athro. | • Addysgu ac Arsylwi |
| Mae'r AC a'r athro yn cael cyfle i drafod y dewisiadau a wnaed yn y wers. Mae'r AC yn gosod targedau personol mewn perthynas â'r agwedd sy'n cael ei harsylwi. | • Trafod ac Adolygu |
| Mae'r AC yn rhannu'r targedau gyda'r mentor ac mae'r mentor yn arsylwi gwers lle mae'r AC yn rhoi sylw i'r targedau. | • Addysgu ac Arsylwi |
| Mae'r mentor a'r AC yn adolygu'r cynnydd o ran y targed penodedig. | • Adolygu |

## Dull Dysgu Proffesiynol: Teithiau Dysgu

Mae 'tîm Teithiau Dysgu' yn gweithio ar y cyd i edrych ar ymarfer proffesiynol mewn dyfnder. Yn ystod rownd ddysgu, bydd arsylwyr yn cofnodi nodiadau manwl sy'n casglu data ar bethau megis dulliau addysgu/dysgu, swyddogaethau a lefelau ymwneud dysgwyr, trefn yr ystafell ddosbarth, yr amgylchedd, etc.

| | |
|---|---|
| Mae'r Mentor Arweiniol a Thiwtor Cyswllt y SAU yn nodi ffocws ar gyfer yr arsylwi megis holi effeithiol, dylunio tasgau ac ati. | • Cynllunio |
| Mae Mentor Arweiniol y Rhwydwaith yn arwain y seminar ffocws gan roi sylw i ddamcaniaethau, ymchwil ac arfer da perthnasol a chydnabyddedig yn ogystal â moeseg a dulliau arsylwi. | • Paratoi |
| Mae'r AC yn arsylwi'r gwersi a ddyrannwyd mewn grwpiau bach ac yn ymwneud â'r athro sy'n rhoi'r wers pan fo hynny'n bosibl. | • Arsylwi |
| Mae'r mentor neu'r tiwtor yn hwyluso sesiwn drafod gyda'r AC gan ganolbwyntio ar yr hyn yr arsylwyd arno, gan gysylltu â'r ymchwil berthnasol | • Trafod |
| Mae grwpiau bach yn rhannu eu canfyddiadau gyda'r grŵp cyfan. Mae'r AC yn nodi goblygiadau ar gyfer eu hymarfer eu hunain. | • Adolygu |

## Dull Dysgu Proffesiynol: Grŵp Ymchwil Athrawon

Mae'r dull hwn o ddysgu yn fwy uchelgeisiol ac yn ddull y dylai ysgolion anelu ato gan ei fod yn atgyfnerthu'r dull cyd-adeiladu a chydweithio â mentora rhwng ysgolion a SAU.  Caiff y broses ei threialu mewn ysgolion arweiniol neu ysgolion sydd â diddordeb yn y flwyddyn gyntaf a'i datblygu yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r broses yn cynnwys AC, athrawon a chynrychiolwyr SAU yn cydweithio ar wella elfen addysgeg benodol sy'n faes targed y cytunwyd i'w ddatblygu.  Caiff gwers ei chyd-lunio a'i chyflwyno i grŵp bach o fyfyrwyr ac yna trosglwyddir y sgiliau i addysgu dosbarth cyfan.

Sesiwn Dysgu Proffesiynol 1: mae'r cyfranogwyr yn dysgu am ffocws y GYA gan gynnwys cysyniadau, yr arfer cyfredol, ymchwil ac addysgeg.

- Paratoi

Cynllunio addysgu grwpiau bach: mae'r cyfranogwyr yn cynllunio gwers grŵp bach gan weithio gydag arbenigwyr i gynllunio'r wers.

- Cynllunio

Mae'r cyfranogwyr yn addysgu'r wers - bydd rhai yn arsylwi ac yn cofnodi ymateb y dysgwyr.

- Gwneud

Mae'r cyfranogwyr yn adolygu effaith y wers ar y dysgwyr.  Yna, maent yn dysgu sut i drosglwyddo addysgu grwpiau bach i gyd-destunau dosbarth cyfan.

- Adolygu

## Adran B: Dogfennaeth Mentora

Er mwyn cefnogi cynnydd yr AC, mae gan CaBan wedi llunio dogfennaeth sy'n ymwneud â chynllunio ac asesu:

- Profforma Cynllun Gwers
- Ffurflen Asesu Addysgeg (PAF)
- Adroddiad Profiad Ysgol 1 a 2 (APY)
- Dyddlyfr Proffesiynol yr AC

Caiff y dogfennau hyn eu llwytho i fyny i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) a chânt eu hadolygu gan y mentor, y tiwtor, y PF a'r MARh.


Darperir copïau ac enghreifftiau ynghyd â'r Llawlyfr SPAA ar-lein.

# Atodiad A: Dysgu Proffesiynol - adnoddau manylach

## Teithiau Dysgu

**Amcanion**

- i gysylltu theori ag ymarfer ac arsylwi athrawon arbenigol yn eu cyd-destun;
- i ddatblygu'r grefft o arsylwi, canolbwyntio ar ddysgu a nodi digwyddiadau arwyddocaol ar lawr dosbarth;
- i nodi'r goblygiadau ar gyfer ymarfer **AC** eu hunain.




Mae'r **mentor arweiniol** a'r **tiwtor** yn nodi ffocws ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu (er enghraifft, cwestiynu effeithiol, cynllunio tasgau, dysgu mewn grŵp, addysgu'r pwnc). Mae'r **Mentor** yn trafod â chydweithwyr i nodi dosbarthiadau ar gyfer arsylwi ac mae'n rhannu'r ffocws arsylwi gyda'r athrawon.

Mae'r **tiwtor** yn arwain y seminar ffocws arweiniol ar-lein, ar y campws neu yn yr ysgol, gan sicrhau bod **AC** yn ymwybodol o ddamcaniaethau, ymchwil ac arfer da cydnabyddedig perthnasol i'r maes ffocws. Materion eraill i'w cynnwys yw moeseg arsylwi (anhysbysrwydd a chyfrinachedd) a dulliau arsylwi. Er enghraifft, gallant neilltuo gwahanol rolau arsylwi i barau o **AC** er mwyn i un yn sylwi ar weithredoedd yr athro tra bo'r llall yn arsylwi grŵp bach o ddysgwyr.
Mae'r **mentor** yn amlinellu cyd-destun yr ysgol gan gyflwyno proffil cryno o'r dosbarthiadau i'w harsylwi, y cynnwys a gynlluniwyd ar gyfer y gwersi a blaenoriaethau'r ysgol sy'n gysylltiedig â ffocws y Daith Ddysgu.

Mae'r **AC** yn arsylwi'r gwersi a ddewiswyd mewn parau neu driawdau. Os yw'r cyfle'n codi, maen nhw'n trafod y wers gyda'r athro/athrawes a arsylwyd.

Mae **mentor** a/neu **diwtor** yn hwyluso cyfarfod llawn i fyfyrio ar y gwersi a arsylwyd. Bydd **AC** yn ailymgynnull i drafod a gwneud synnwyr o'r hyn y maent wedi'i weld gan ddefnyddio damcaniaethau a dulliau ymchwil perthnasol i ddadansoddi arfer.

Mae parau a thriawdau o **AC** sydd wedi cyd-arsylwi yn cytuno ar arwyddocâd gweithredoedd a digwyddiadau a arsylwyd. Maent yna'n rhannu eu canfyddiadau ag eraill er mwyn gwerthuso elfennau'r addysgeg sydd yn gyffredin ac yn amrywio.
Mae'r **AC** yn cloi drwy nodi'r goblygiadau ar gyfer eu hymarfer eu hunain.

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth** | Un diwrnod mewn ysgol gyda mewnbwn ysgol/SAU ar y cyd. |
| **Adnoddau** | Ystafell ar gyfer cyflwyno seminar a gweithdy cyfarfod llawn. |
| **Amser Tiwtor** | Seminar un neu ddwy awr. Cynllunio un awr gyda **mentor**. |
| **Amser Mentor** | Seminar un neu ddwy awr. Cynllunio un awr gyda **thiwtor** gydag amser ychwanegol ar gyfer cydweithio â **chydweithwyr**. |


**Sail ddamcaniaethol**

Dangoswyd bod teithiau dysgu yn ddull effeithiol o ddysgu proffesiynol (Gore et al., 2015) sydd yn galluogi **AC** i arsylwi ymarfer arbenigol drwy lygaid critigol sy'n seiliedig ar ymchwil, e.e. y craidd cyfarwyddol (City et al., 2009) a chymunedau dysgu proffesiynol (Philpott & Oates, 2017).

# Grŵp Ymchwil Athrawon

**Amcanion**
Trosglwyddo damcaniaethau addysgeg i ymarfer drwy grwpiau bach o ddysgwyr. Mae'r sesiynau hyn yn eu tro yn trawsnewid arferion athrawon ar lawr dosbarth.

**Paratoi**
Mae athrawon a thiwtoriaid yn cyfarfod i gytuno ar ffocws y grŵp ymchwil athrawon. Rhennir ymchwil sy'n llywio'r modelau dysgu a'r arferion presennol yn y maes hwn gan y tiwtoriaid.




**Sesiwn dysgu proffesiynol 1**
Mae cyfranogwyr yn dysgu am ffocws y GYA, y cysyniadau, yr addysgeg, yr arfer cyfredol a'r ymchwil sy'n llywio'r dysgu. Mae'r sesiwn yn un ryngweithiol ac yn modelu gweithgareddau ac adnoddau gwersi. Caiff ffynonellau darllen eu rhannu.

**Cynllunio addysgu grŵp bach**
Mae cyfranogwyr yn defnyddio'r modelau a ddysgwyd yn y sesiwn cyntaf i gynllunio gwers grŵp bach i ddehongli effaith y modelau dysgu ar wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr. Maent yn gweithio gydag arbenigwyr i gynllunio'r wers.

**Addysgu mewn grwpiau bach**
Mae cyfranogwyr yn addysgu'r wers. Mewn rhai achosion, mae un cyfranogwr yn sylwi tra bod y llall yn addysgu. Mae'r holl gyfranogwyr yn canolbwyntio ar effaith y modelau dysgu ar ddysgu'r disgyblion. Maent yn cofnodi sylwadau arwyddocaol a thynnu llun o waith disgyblion.

**Adolygiad o addysgu a dysgu**
Mae cyfranogwyr yn adolygu effaith y modelau dysgu ar ddysgu'r disgyblion. Byddant yn trafod sylwadau arwyddocaol neu'n tynnu lluniau o waith disgyblion. Maent yn myfyrio ar sut yr ymddangosai fod eu dewisiadau yn dylanwadu ar y dysgu.

**Sesiwn dysgu proffesiynol 2**
Mae cyfranogwyr yn dysgu sut i drosglwyddo deilliannau eu haddysgu mewn grŵp bach i gyd-destunau dosbarth cyfan. Maent yn myfyrio ar sut i weithredu'r modelau dysgu a ddefnyddir yn y GYA o fewn eu hysgolion. Maent yn trafod rhwystrau posibl a chyfleoedd ar gyfer gwella dysgu. Maent yn nodi arwyddocâd y modelau hyn i'w gwybodaeth broffesiynol eu hunain. Mae cyfranogwyr yn cynllunio darllen pellach ac yn nodi arwyddocâd deilliannau'r TRG hwn ar gyfer eu hymarfer eu hunain.

**Sail ddamcaniaethol**
Mae'r fersiwn hwn o a Grŵp Ymchwil Athrawon wedi'i addasu ar gyfer cyd-destun AGA. Mae'n cael ei ddylanwadu gan fodelau dysgu proffesiynol a drafodwyd gan Cochran-Smith, Swan, Cymorth Zeichner a Darling-Hammond.

## Atodiad B: Proses Arsylwi Gwersi

| CYN ARSYLWI GWERS | ARSYLWI GWERS | AR ÔL ARSYLWI GWERS |
|---|---|---|
| • Mae mentor yn adfyfyrio ar gwestiynau allweddol i'w defnyddio i arwain y cyfarfod gyda'r AC<br>• Nodi a chytuno pa wers i'w harsylwi (AC a Mentor). Sicrhau amser priodol rhwng y cyfarfod hwn a'r wers a arsylwyd<br>• Mentor ac AC i benderfynu ar dargedau'r AC neu eu hadolygu a nodi ffocws ar gyfer yr arsylwi<br>• Penderfynu pryd y caiff yr adroddiad ei gyflwyno i'r AC a phryd y cynhelir y cyfarfod nesaf i adolygu'r wers<br>• Mentor wedi adolygu'r cynllun gwers ac adnoddau ar gyfer y wers a arsylwir i drafod neu, cynorthwyo'r AC i gynllunio a pharatoi ar gyfer y wers<br>• AC i rannu cyd-destun y wers a'r dysgwyr<br>• Penderfynu lle bydd y mentor yn eistedd a beth fydd ef/hi yn ei wneud yn ystod y wers hynny yw, symud o gwmpas/gofyn cwestiynau i unigolion neu grŵp o ddysgwyr<br>• Penderfynu beth sy'n digwydd ar ddiwedd y wers | • Mentor yn adfyfyrio ac yn cynllunio meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt o ran gwybodaeth yr AC (cyfeirio at y pedwarawd gwybodaeth)<br>• Mentor yn mynd dros nodiadau o'r cyfarfod cyn y wers a'r dogfennau (cynllun gwers ac adnoddau)<br>• Mentor i sicrhau bod yr arsylwi yn canolbwyntio ar y ffocws/ targedau y cytunwyd arnynt<br>• Sicrhau bod yr arsylwi yn canolbwyntio ar yr AC ac ar ddysgu'r dysgwyr<br>• Ar ddiwedd y wers dylai'r mentor gynnal sesiwn ôl-gyfarwyddyd fer, cadarnhau pryd y darperir y ffurflen arsylwi a dyddiad/amser y cyfarfod nesaf<br>• Sicrhau bod yr AC yn paratoi ar gyfer y cyfarfod ar ôl y wers trwy adfyfyrio ar y wers fel ei fod ef/hi yn cyfrannu i'r cyfarfod ar ôl y wers a'r drafodaeth broffesiynol | • Mentor i baratoi cwestiynau fydd yn arwain y cyfarfod (gweler y model 'pedwarawd gwybodaeth' a model Ebbutt yn y Model Proffesiynol)<br>• Y drafodaeth rhwng y mentor a'r AC yn cael ei harwain trwy ganolbwyntio ar yr arsylwi gwers a thargedau'r AC<br>• Cyfarfod mewn lle tawel a phreifat<br>• Sicrhau na fydd neb yn torri ar draws y cyfarfod<br>• Cadw at yr amser a neilltuwyd<br>• AC i arwain y drafodaeth lle bo modd i rannu eu myfyrdodau a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn<br>• Defnyddio dogfennau a thystiolaeth amrywiol yn ystod y cyfarfod (cynllun gwers, adnoddau, enghreifftiau o waith dysgwyr ac ati) i ddangos enghreifftiau, ysgogi adfyfyrio a gweithredu |

| ARSYLWI CYN Y WERS | ARSYLWI'R WERS A SYLWADAU AR ÔL Y WERS |
| --- | --- |
| Yn ystod y cyfarfod hwn bydd y mentor yn trafod y pwyntiau canlynol am yr AC:<br>• gwybodaeth bwnc;<br>• eu gwybodaeth o'r cwricwlwm;<br>• eu daliadau ynghylch natur y pwnc;<br>• eu daliadau ynghylch addysgu a dysgu;<br>• eu gwybodaeth am y disgyblion;<br>Isod ceir cwestiynau y gellid eu defnyddio i hwyluso trafodaeth rhwng y mentor a'r AC yn y cam hwn:<br>• Pa weithgareddau athro a dysgwr (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) ydych chi'n bwriadu eu defnyddio i hwyluso dysgu'r disgyblion?<br>• Pam ydych chi'n ystyried dewis y dulliau hyn?<br>• Beth mae'r disgyblion wedi'i ddysgu o'r blaen?<br>• Beth sy'n helpu'r disgyblion i ddysgu?<br>• Yn eich profiad chi, sut mae'r disgyblion hyn yn dysgu orau? | Yn ystod ac ar ôl yr arsylwi pan fydd y mentor yn dadansoddi ac yn gwerthuso'r wers yr arsylwyd arni gyda a heb yr AC, gellid defnyddio'r cwestiynau isod.  Mae'n bwysig cofio na ddylid defnyddio pob un o'r cwestiynau hyn yn ystod y wers ac ar ôl y wers. Bydd y mentoriaid yn defnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pa gwestiynau sydd fwyaf priodol, yn dibynnu ar y sefyllfa a datblygiad yr AC:<br>• Pa weithgareddau athro a dysgwr (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) wnaethoch chi eu defnyddio i hwyluso dysgu'r disgyblion?<br>• Pam wnaethoch chi/AC ddewis y dulliau hyn?<br>• A oedd hi'n glir i ddisgyblion beth yr oeddent i fod i'w wneud, pam roeddent yn ei wneud a beth fyddent yn ei ddysgu?<br>• Sut wnaethoch chi/yr AC gefnogi'r disgyblion i ddeall cysyniadau?<br>• Beth wnaeth helpu'r disgyblion i ddysgu? (Pryd wnaeth y disgyblion ddysgu fwyaf yn ystod y wers?)<br>• Sut wnaethoch chi wneud cysylltiadau rhwng gweithgareddau yn ystod y wers?<br>• Sut wnaethoch chi wneud cysylltiadau gyda dysgu blaenorol a dysgu yn y dyfodol?<br>• Sut wnaethoch chi sicrhau dilyniant rhesymegol o weithgareddau?<br>• Sut wnaethoch chi  gysylltu'r amcanion dysgu â'r gweithgareddau?<br>• Sut wnaethoch chi gysylltu â'r cwricwlwm?<br>• Sut wnaethoch chi ymateb i syniadau myfyrwyr?<br>• A oedd yna ddigwyddiadau annisgwyl: e.e. myfyriwr yn gofyn cwestiwn annisgwyl, diffyg adnoddau neu rywbeth 'yn mynd o'i le'? Sut wnaethoch chi/yr AC ymateb/ymdopi? |